HORIZON NUCLEAR POWER

A UK company of E.ON and RWE

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE
T +44 (0) 845 300 6816

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

NEWS RELEASE

DATGANIAD NEWYDDION
UNWAITH
Rhagfyr 2011

I'W RYDDHAU AR
Dydd Mercher 14

Horizon yn croesawu cwblhau'r Asesiad Dyluniad Generig dros dro

Heddiw, fe wnaeth Horizon Nuclear Power (Horizon) groesawu cwblhau dros dro yr Asesiad Dyluniad Generig (GDA) o dechnolegau adweithyddion newydd.

Dywedodd Alan Raymant, Prif Swyddog Gweithredu Horizon: "Mae hyn yn garreg filltir bwysig arall wrth ddarparu adeilad niwclear newydd yn y DU.

"Dyma ragor o dystiolaeth o gryfder rhaglen adeilad niwclear newydd y DU.

"Mae'r broses GDA yn rhoi hyder i ddatblygwyr bod y technolegau EPR a AP1000 yn addas i'w defnyddio yn y DU, ac y gellir sicrhau cymeradwyaeth o ran trwyddedu o fewn amserlen ddibynadwy. Mae hefyd yn golygu y gallwn ganolbwyntio ein hasesiadau trwyddedu a chynllunio ar y materion sy'n ymwneud yn benodol â'r safle."

- DIWEDD -

Nodiadau i olygyddion:

- Heddiw, mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) wedi cadarnhau bod Areva EPR a Westinghouse AP1000 wedi cael Cadarnhad dros dro o Dderbyn y Dyluniad (IDAC), ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi bod y ddau adweithydd wedi cael Datganiad dros dro o Dderbynioldeb y Dyluniad (ISODA).
- Dechreuodd y broses GDA yn 2007 gydag asesiad cychwynnol o bedwar dyluniad ar gyfer adweithyddion. Tynnwyd dau o'r dyluniadau hynny (GE ESBWR ac AECL ACR-1000) yn ôl o'r broses gan gyflenwyr yr adweithyddion.
- Mae'r ddau adweithydd arall sydd ar ôl wedi datrys y materion rheoleiddiol hynny sydd wedi codi drwy gydol y broses.
- Bydd tystysgrifau interim yn cael eu datblygu i DAC a SODA llawn ar ôl i'r rheoleiddwyr gwblhau rhagor o asesiadau. Disgwylir i hyn gymryd cyfnod o oddeutu 12 mis o ystyriaeth bellach.
- Mae Horizon yng nghamau olaf proses o ddethol tîm cyflawni a dethol technoleg adweithyddion.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tris Denton – 07585 966 747 neu tristram.denton@horizonnuclearpower.com
Leon Flexman – 07989 493 320 neu leon.flexman@horizonnuclearpower.com